# TUDOR, STEPHEN OWEN (1893 - 1967), gweinidog (MC) ac awdur

**Enw:** Stephen Owen Tudor
**Dyddiad geni:** 1893
**Dyddiad marw:** 1967
**Priod:** Ann Tudor (née Hughes Parry)
**Rhiant:** Hannah Tudor
**Rhiant:** Thomas Tudor
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 5 Hydref 1893 yn Llwyn-y-gog, Staylittle, plwyf Trefeglwys, Trefaldwyn, mab Thomas a Hannah Tudor. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg y Drefnewydd, a bu'n gwasanaethu yn ystod Rhyfel Byd I yn Ffrainc gyda'r Gwarchodlu Cymreig. Cafodd brofiadau mawr yn ystod y rhyfel, a theimlodd yr alwad i'r weinidogaeth o'r herwydd. Aeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth (lle graddiodd gydag anrhydedd mewn athroniaeth), ac i Goleg Lincoln, Rhydychen (lle graddiodd gydag anrhydedd mewn diwinyddiaeth). Enillodd ysgoloriaeth David B. Mills, a'i galluogodd i barhau ei efrydiau yn yr Union Theological Seminary, Efrog Newydd, T.U.A. Bu'n gweinidogaethu am dymor fel bugail-fyfyriwr yn eglwys y Marsden, Saskatchewan, Canada. Dychwelodd i Gymru, ac ordeiniwyd ef yn 1927. Bu'n gweinidogaethu yn y Gaerwen a Phensarn Berw, Môn (1927-29); y Tabernacl, Porthmadog (1929-35), a Moriah, Caernarfon (1935-62). Yng nghyfnod Rhyfel Byd II gwasanaethodd fel caplan yn y fyddin. Ar ôl ymddeol, aeth i fyw i Fae Colwyn, gan fwrw golwg dros eglwysi Llanddulas a Llysfaen. Priododd 1927, Ann Hughes Parry o Fachynlleth; ganwyd dau fab a dwy ferch o'r briodas. Bu farw 30 Mehefin 1967, a chladdwyd ei weddillion yn Llawr-y-glyn, Trefaldwyn.

Yr oedd yn ffigur amlwg ym mywyd ei Gyfundeb. Bu'n llywydd Sasiwn y Gogledd (1966), a thraddododd y Ddarlith Davies (1959) ar ' Athrawiaeth yr Ymgnawdoliad ', ond nis cyhoeddodd. Yr oedd ganddo feddwl craff, a magodd argyhoeddiadau cryfion gan eu mynegi'n gadarn o'r pulpud ac yn y wasg. Ysgrifennodd lawer i'r *Traethodydd*, *Y Drysorfa*, *Y Brython* a'r *Goleuad*, a bu'n golofnydd cyson am flynyddoedd yn y ddau olaf, colofn hawl ac ateb, tan y ffugenw ' Theophilus ' yn yr olaf. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau ar faterion crefyddol: *Protestaniaeth* (1940), *Ein cymunwyr ieuainc* (1947), a *Beth yw Calfiniaeth?* (1957). Cyhoeddodd hefyd ddwy stori dditectif; *Cyfrinach yr afon* (1934), a *Tranc y rheolwr* (1937); a chyn diwedd ei oes cyhoeddodd gasgliad o ysgrifau, *Hen raseli ac ysgrifau eraill* (1966).

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1968, 289-90

*Y Goleuad*, 26 Gorffennaf 1967

*Y Drysorfa*, 1966, 70

a gwybodaeth gan ei weddw

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751826

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.